CYFRES A3

amserbeibl

Storïau o'r Beibl – Safon 2

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Storïau'r Beibl o'r Efengylau

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

DARLLENWCH
Mathew 4: 18-22

ADNOD ALLWEDDOL
Mathew 4: 19

Gofynnwch am help i chwilio am yr adnod.

Stori 1 Iesu yn galw Pedr

Oes gyda chi ffrind gorau? Roedd Iesu'n gwybod y byddai angen pobl i'w helpu, rhai fyddai yn aros wrth Ei ochr ac yn bod yn ffrindiau Iddo. Un diwrnod, pan oedd yn cerdded ar lan Llyn Galilea, fe welodd ddau bysgotwr. Enw un ohonyn nhw oedd Simon Pedr a'r llall oedd ei frawd, Andreas.

C **Beth oedd enwau y ddau bysgotwr?** 6

S _ _ _ _ _ **P** _ _ _ _ ac **A** _ _ _ _ _ _ _ _.

Roedd y ddau bysgotwr yn taflu eu rhwyd i'r dŵr yn y gobaith o ddal pysgod. Fe welodd Iesu mor brysur yr oedden nhw'n gweithio, ac roedd Ef yn gwybod eu bod y math o ddynion a fyddai o help Iddo.

Fe alwodd arnyn nhw i'w ddilyn. Roedd am roi gwaith newydd cyffrous iddyn nhw yn Ei helpu Ef.

Meddai wrthyn nhw, "Dewch ar fy ôl i, ac fe'ch gwnaf yn bysgotwyr dynion."

C **Beth a ddywedodd Iesu wrth y pysgotwyr? Llenwch y llythrennau coll.** 4

Dewch,
a _ _ _ _ _ _ **i,**
ac fe'ch _ _ _ _ _ _
yn b _ _ _ _ _ _ _ _ _
d _ _ _ _ _

Roedd Simon Pedr ac Andreas wedi cwrdd â'r Arglwydd Iesu yn barod, ac yn gwybod mor bwysig oedd Ef. Pan alwodd Ef arnyn nhw, fe adawon nhw eu rhwydau a'i ganlyn.

C **Rhoddwch gylch am yr hyn a adawodd Simon Pedr ac Andreas wrth ochr y llyn.**



3

Fe ddaeth y ddau hyn yn ddisgyblion cyntaf Iesu. Roedd hyn yn golygu eu bod yn fodlon ei ganlyn ble bynnag yr oedd E'n mynd, a gwneud beth bynnag yr oedd Ef am iddyn nhw'i wneud. Fe ddewisodd Iesu ddeuddeg o ddynion i gyd, ac fe fyddai'r rhain yn Ei helpu ac yn ffrindiau arbennig Iddo.

Yr un diwrnod fe wahoddodd Iesu ddau bysgotwr arall i'w ganlyn. Eu henwau oedd Iago ac Ioan. Ar unwaith, fe wnaethon nhwy ufuddhau i'r Arglwydd Iesu. Fe adawon nhw eu cwch a'u tad er mwyn Ei ganlyn Ef.

C **Sawl disgybl wnaeth Iesu eu dewis i gyd? Rhowch gylch am yr ateb cywir.**

3

4 **5** **10** **12**

C **Dim ond dwy o'r brawddegau sy'n gywir. Chwiliwch amdanyn nhw a rhowch ✓ yn y blychau.**

- ☐ Fe gafodd Iago ac Ioan eu gwahodd i ganlyn Iesu.
- ☐ Fe ddywedodd Iago ac Ioan y bydden nhw'n canlyn yr Iesu nes ymlaen.
- ☐ Fe adawodd Iago ac Ioan eu cwch a'u tad a chanlyn Iesu.
- ☐ Nid oedd Iago ac Ioan am fod yn ddisgyblion i Iesu.

4

Mae'r Arglwydd Iesu am gael bechgyn a merched i'w helpu heddiw.

Ydych chi yn un sy'n Ei helpu Ef?

I wneud hyn rhaid i chi ei ddilyn a bod yn ufudd Iddo.



Enw _____

DARLLENWCH
Luc 5: 1-11

ADNOD ALLWEDDOL
Luc 5: 10

Gofynnwch am help i chwilio am yr adnod.

Stori 2 Iesu'n helpu Pedr

Yn yr ysgol dydych chi ddim yn dysgu popeth ar unwaith! Wnaeth Simon Pedr ddim chwaith. Unwaith eto roedd e wedi bod yn pysgota ac yn awr roedd e'n brysur yn golchi ei rwydau.

Roedd yr Arglwydd Iesu hefyd ar lan Llyn Genesaret neu Fôr Galilea yn siarad â'r dyrfa fawr oedd yn gwrando ar y neges ryfeddol oedd ganddo ar eu cyfer. Roedd y dyrfa yn gwasgu cymaint arno nes i Iesu ofyn i Simon Pedr am gael benthyg ei gwch, er mwyn dysgu'r bobl. Fe fyddai pawb yn gallu ei weld a'i glywed gymaint yn well.

Rhowch y geiriau hyn yn y blychau iawn.
(Mae'r cyntaf wedi ei wneud i chi).

cwch ***tyrfa*** ***Iesu*** ***Llyn Genesaret*** ***pysgotwyr***



Ar ôl i Iesu orffen siarad â'r dyrfa, fe drodd at Simon Pedr a dweud, "Dos allan i'r dŵr dwfn i gael helfa o bysgod." Eglurodd Simon Pedr eu bod wedi bod wrthi'n galed drwy'r nos ond heb ddal dim. Mae'n siwr eu bod wedi blino ac yn siomedig, ond roedd Simon Pedr bob amser am fod yn ufudd i'r Arglwydd Iesu. Felly, allan â nhw a gollwng y rhwyd.

Doedden nhw ddim wedi gweld dim byd tebyg! Roedden nhw wedi dal cymaint o bysgod roedd y rhwyd yn dechrau torri! Fe alwon nhw ar ffrindiau mewn cwch arall i ddod i'w helpu. Roedd y ddau gwch mor llawn roedden nhw bron â suddo!

C **Pan fu Simon Pedr yn ufudd i'r Arglwydd Iesu, beth ddigwyddodd? Tanlinellwch yr ateb cywir.**

Ni ddaliodd ddim.
Roedd ei rwyd yn llawn.
Fe ddaliodd ychydig o bysgod

3

Ysgrifennwch lythyren gyntaf pob llun er mwyn gweld beth rydyn ni'n galw'r pethau rhyfeddol roedd yr Arglwydd Iesu'n eu gwneud.



____ ____ ____ ____ _____ ____ ____ ____

4

Roedd Pedr wedi synnu cymaint nes iddo syrthio ar ei liniau o flaen Iesu. Yn awr roedd ef yn gwybod mor fawr oedd yr Arglwydd Iesu ac mor bechadurus oedd ef. Yr Arglwydd Iesu oedd y person mwyaf rhyfeddol iddo ei gyfarfod erioed!

C **Pwy wnaeth y wyrth fawr hon? Lliwiwch yr ateb cywir yn unig.**

Simon Pedr

Yr Arglwydd Iesu

5

Roedd Simon Pedr wedi penderfynu! Roedd ef am roi'r gorau i bysgota, ac wedi penderfynu bod yn ddisgybl i'r Arglwydd Iesu. Felly dyma Simon Pedr, Iago ac Ioan yn tynnu eu cychod tua'r lan, gadael popeth ac yn dilyn Iesu.

C **Rhowch y llythrennau coll yn y paragraff isod.**

Roedd Simon Pedr, Iago ac **I** _ _ _ yn llawn cyffro pan welson nhw'r wyrth! Fe dynnon nhw eu **c** _ __ _ **d** i'r lan, yn gadael popeth a **d** _ _ _ **n** **I** _ _ _.

4

Mae'r Arglwydd Iesu am i ni Ei ganlyn a'i blesio ym mhopeth a wnawn gartref, yn yr ysgol ac wrth chwarae.

Enw _____

DARLLENWCH
Mathew 8: 23-27

ADNOD ALLWEDDOL
Mathew 8: 27

Gofynnwch am help i chwilio am yr adnod.

Stori 3 Iesu'n gostegu'r storm

Un diwrnod roedd Iesu a'i ddisgyblion yn hwylio ar draws Llyn Galilea.

Roedd rhai o'r disgyblion yn adnabod y llyn yn dda oherwydd roedden nhw wedi bod yn pysgota ynddo yn aml.

Yn sydyn fe gododd storm fawr! Roedd y gwynt mor gryf nes roedd y tonnau yn sgubo dros y cwch. Roedd ofn mawr ar y disgyblion, er eu bod yn gyfarwydd â hwylio.



C **Rhowch yr atebion i'r cwestiynau canlynol yn y Grid Geiriau.**



1. **Pwy oedd gyda'r Arglwydd Iesu yn y cwch?**
2. **Beth ddaeth yn sydyn?**
3. **Sut oedd y disgyblion yn teimlo?**
4. **Beth a sgubodd dros y cwch?**

8

Ar ôl diwrnod prysur roedd yr Arglwydd Iesu'n cysgu'n drwm yn y cwch. Roedd cymaint o ofn ar y disgyblion nes iddyn nhw fynd i geisio Ei ddeffro. Fe waeddon nhw, "Arglwydd, achub ni! Rydyn ni'n mynd i foddi!"

C **Tanlinellwch y gair sy'n dweud beth oedd yr Arglwydd Iesu yn ei wneud yn ystod y storm.**

Rhwyfo **Bwyta** **Cysgu**

2

C **Yn y cylch geiriau ysgrifennwch y geiriau a ddefnyddiodd y disgyblion i ddeffro Iesu.**

Arglwydd, a ___ __ __ n__!

Rydyn ni'n m__ __ __ i

f__ ____ __!

3

Fe ddywedodd yr Arglwydd Iesu wrthyn nhw nad oedd angen bod yn ofnus oherwydd roedd Ef gyda nhw yn y cwch. Fe ddywedodd wrthyn nhw nad oedd ganddyn nhw lawer o ffydd. Fe ddylen nhw fod wedi ymddiried ynddo Fe i'w cadw nhw'n ddiogel yn y storm.

2

C **Ychydig o beth oedd gan y disgyblion? Tanlinellwch yr ateb cywir.**

Ffydd **Hapusrwydd** **Dewrder**

Fe siaradodd yr Arglwydd Iesu â'r gwynt a'r tonnau. Fe arhosodd yn y cwch a gweiddi mewn llais uchel, "Bydd ddistaw! Bydd dawel!". Fe beidiodd y gwynt ac fe dawelodd y tonnau.

C **Lliwiwch, a dysgwch y geiriau a ddywedodd yr Arglwydd Iesu wrth y gwynt a'r tonnau.**

3

"Bydd ddistaw, bydd dawel."

Roedd hon yn wyrth arbennig arall!
Doedd ryfedd bod y disgyblion wedi synnu ac wedi dweud,

"Pa fath ddyn yw hwn?

Y mae hyd yn oed y __ __ __ __ __ __ __ ____ a'r

m__ __ __ yn ufuddhau iddo" .

2

C **Llenwch y llythrennau coll o'r Adnod Allweddol.**

Dewch i ni heddiw ddiolch i Dduw am fawredd Ei Fab, yr Arglwydd Iesu Grist.



Enw _____

DARLLENWCH
Mathew 14: 22-33

ADNOD
ALLWEDDOL
Mathew 14: 33

Gofynnwch am help i chwilio am yr adnod.

Stori 4 Iesu'n achub Pedr

Ydych chi erioed wedi bod allan ar y môr ar noson stormus mewn cwch bychan? Os do, fe allwch chi feddwl gymaint o ofn oedd ar y disgyblion pan gawson nhw eu dal mewn storm un noson ar Lyn Galilea.



C **Rhowch enw'r llyn uwchben y cwch.**

2

Doedd yr Arglwydd Iesu ddim gyda'i ddisgyblion. Roedd E ar y mynydd yn gweddïo ar Ei Dad. Ar ôl bod gymaint o amser gyda'r tyrfaoedd, roedd Ef am fod ar Ei ben Ei hun yn awr.

C **Pam aeth Iesu i fyny i'r mynydd?**
Llenwch y llythrennau coll.

Er mwyn **g** _ _ _ _ _ _ ar Dduw, Ei **D** _ _.

4



Yn y cyfamser, i lawr ar y llyn stormus, roedd pethau'n mynd yn waeth ar y disgyblion. Ganol nos fe welson nhw beth oedden nhw'n feddwl oedd yn ysbryd! Roedd mwy o ofn arnyn nhw nawr.

Ond nid ysbryd oedd e! Yr Arglwydd Iesu oedd wedi dod i'w helpu. Roedd E'n cerdded ar y dŵr.

Doedden nhw ddim yn gwybod mai Iesu oedd yno nes iddo Fe siarad â nhw.

C **Ar beth y cerddodd Iesu?**
Tanlinellwch yr ateb cywir.

dŵr **tywod** **glaswellt**

2

C **Rhowch yr atebion i'r cwestiynau canlynol yn y Grid Geiriau.**

1. **Beth oedd Iesu'n ei wneud ar y dwr?**

2. **Sut oedd y disgyblion yn teimlo pan welson nhw'r 'ysbryd'?**

3. **O ble y daeth Iesu?**

4. **Beth oedd y disgyblion yn feddwl oedd Iesu?**



8



Dywedodd Iesu wrthyn nhw, "Codwch eich calon, myfi yw: peidiwch ag ofni." Yna fe ofynnodd Pedr i Iesu a fedrai ef fynd ato, a chyn pen dim, roedd Pedr yn cerdded ar y dŵr.
Pan oedd e'n cerdded at Iesu, fe welodd nerth y gwynt a'r tonnau. Fe ddaeth ofn drosto ac fe ddechreuodd suddo.

C **Lliwiwch y geiriau a waeddodd Pedr ar Iesu.**

4

"Arglwydd, achub fi!"

Fe estynnodd Iesu Ei law ac achub Pedr. Pan oedden nhw yn ôl yn y cwch fe dawelodd y gwynt. Yna roedden nhw'n gwybod mor fawr oedd yr Arglwydd Iesu. "Yn wir, Mab Duw wyt ti," medden nhw. Rhaid i ninnau hefyd wybod bod yr Arglwydd Iesu'n Fab Duw ac wedi dod i'n hachub ni. Fe gafodd Pedr ei achub rhag boddi. Fe gawn ninnau ein hachub rhag pechod os ydyn ni'n ymddiried yn yr Arglwydd Iesu.

cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

SAFON 2 A3

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120